# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y CABINET DROS YR AMGYLCHEDD

**3 RHAGFYR 2021**

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** H.A.L. Evans (Aelod o’r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
N. Skinner, Rheolwr Strategaeth Trafnidiaeth a Seilwaith
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod:- 10:00yb - 10:15yb**

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. COFNOD PENDERFYNIAD - 13 HYFRED 2021

**PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniadau o gyfarfod yr Aelod o'r Cabinet dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2021 gan ei fod yn gofnod cywir.**

## 3. CAU PRIFFORDD GYHOEDDUS GER DYFFRYN FARM, BYNEA

Ystyriodd yr Aelod Cabinet adroddiad ar gynigion i gau darn byr o'r briffordd gyhoeddus yn Fferm Dyffryn, y Bynea, fel y dangosir ar y cynllun sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Dywedwyd y byddai'r rhan o briffordd gyhoeddus yn cael ei chau drwy Orchymyn yn y Llys Ynadon o dan Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Ar ôl gorchymyn cau llwyddiannus, byddai'r tir "o dan" yr hen briffordd gyhoeddus yn dychwelyd i reolaeth breifat ar gyfer cofrestru tir. Byddai'r tir yn dychwelyd i dirfeddiannwr cyfagos ar Fferm Dyffryn. Er mai'r Cyngor Sir fyddai'n talu'r gost o wneud y Gorchymyn cau, byddai'n elwa o ddileu costau cynnal a chadw a rhwymedigaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Nododd yr Aelod Cabinet fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymgynghori â'r tirfeddiannwr cyfagos ac y byddai Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymgynghori ymhellach ag ef o dan yr ymgynghoriad statudol i'w ddilyn.

**PENDERFYNWYD rhoi cyfarwyddyd i Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith gau darn o'r briffordd gyhoeddus nad yw'n cael ei ddefnyddio ger Fferm Dyffryn, y Bynea, yn unol ag Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980.**

briffordd gyhoeddus ar y B4300. Ger Y Polyn, Nantgaredig, fel y nodir yn y cynllun sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd gan yr Aelod Cabinet, cadarnhaodd y Rheolwr Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd fod y lleoliad ar y B4300, ger y bwyty 'Y Polyn’.

Dywedwyd bod y rhan o briffordd gyhoeddus gynt yn rhan o gynllun gwella priffyrdd ac ers hynny roedd wedi gwneud y rhan o briffordd cul-de-sac yn segur ac yn ddiangen. Byddai'r rhan o briffordd gyhoeddus yn cael ei chau drwy Orchymyn yn y Llys Ynadon o dan Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Ar ôl gorchymyn cau llwyddiannus, byddai'r tir "o dan" yr hen briffordd gyhoeddus yn dychwelyd i reolaeth breifat ar gyfer cofrestru tir. Byddai'r tir yn dychwelyd i'r ddau dirfeddianwyr cyfagos. At hynny, dywedwyd mai'r ymgeisydd fyddai'n ysgwyddo'r gost sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn cau ynghyd â thaliad ymlaen llaw o £2500 i dalu costau. Yn ogystal, Cyngor Sir Caerfyrddin fyddai'n talu'r gost o wneud y gorchymyn cau, ond byddai'n elwa o ddileu costau cynnal a chadw a rhwymedigaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Nododd yr Aelod Cabinet fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymgynghori â'r ddau dirfeddianwyr cyfagos ac y byddai Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymgynghori ymhellach â hwy o dan yr ymgynghoriad statudol.

**PENDERFYNWYD rhoi cyfarwyddyd i Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith gau darn o'r briffordd gyhoeddus nad yw'n cael ei ddefnyddio ger y B4300 - ger Y Polyn, Nantgaredig yn unol ag Adran 4300 o Ddeddf Priffyrdd 1980.**

## 5. CAU PRIFFORDD GYHOEDDUS GER GLANRHYDSAESON FARM, MANORDEILO, LLANDEILO

Ystyriodd yr Aelod Cabinet adroddiad ar gynigion i gau darn o briffordd gyhoeddus yn Fferm Glanrhydsaeson, Maenordeilo, Llandeilo, fel y nodwyd yn y cynllun a atodir i'r adroddiad.

Dywedwyd bod cais wedi dod i law gan dirfeddiannwr drwy Network Rail, i gau darn o briffordd gyhoeddus o ganlyniad i gau croesfan lefel heb signalau o dan raglen genedlaethol Network Rail i leihau nifer y croesfannau ar hyd llinellau rheilffordd byw. Nid oedd y rhan gysylltu o'r briffordd wedi'i chynnal ers blynyddoedd lawer gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac nid oedd o unrhyw fudd strategol i'r Awdurdod. Byddai'r rhan o briffordd gyhoeddus yn cael ei chau drwy Orchymyn yn y Llys Ynadon o dan Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Ar ôl gorchymyn cau llwyddiannus, byddai'r tir "o dan" yr hen briffordd gyhoeddus yn dychwelyd i reolaeth breifat ar gyfer cofrestru tir.  Byddai'r tir yn dychwelyd i'r ddau dirfeddianwyr cyfagos.  At hynny, dywedwyd y byddai'r gost sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn cau yn cael ei thalu gan yr ymgeisydd ynghyd â thaliad ymlaen llaw o £2500 i dalu costau gyda chytundeb i ad-dalu neu adennill yn seiliedig ar gostau gwirioneddol.

Yn ogystal, Cyngor Sir Caerfyrddin fyddai'n talu'r gost o wneud y gorchymyn cau, ond byddai'n elwa o ddileu costau cynnal a chadw a rhwymedigaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Nododd yr Aelod Cabinet yr ymgynghorir ymhellach â'r tirfeddiannwr sy'n ffinio â'r briffordd i'w chau fel rhan o'r broses gyfreithiol statudol ac y byddai unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn cael eu hymchwilio gyda'r bwriad o sicrhau bod y gwrthwynebiad/gwrthwynebiadau yn cael eu tynnu'n ôl cyn gwrandawiad y Llys.

**PENDERFYNWYD rhoi cyfarwyddyd i Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith gau darn o'r briffordd gyhoeddus nad yw'n cael ei ddefnyddio ger Fferm Glanrhydsaeson, Manordeilo, Llandeilo yn unol ag Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980.**

**AELOD O'R CABINET** ______________________ **DYDDIAD** ______________________